HYBU CIG CYMRU
MEAT PROMOTION WALES

# BWLETIN Y FARCHNAD HCC


EBRILL 2017

**Amcangyfrifir bod y cynnyrch amaethyddol cyfun amodol yng Nghymru ar gyfer 2016 wedi gostwng deuddeg y cant mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, ond rhagwelir y bydd incwm y fferm yng Nghymru ar gyfer 2016/17 yn amrywio'n fawr mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd, gan ddibynnu ar y math o fferm. Mae'r rhain yn brif ganlyniadau dau ddatganiad ystadegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y datganiadau hyn.**

**Allbwn ac incwm amaethyddol cyfun, 2016**

Yn y datganiad ystadegol 'Allbwn ac incwm amaethyddol cyfun', rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth y cynnyrch amaethyddol cyfun yng Nghymru ar gyfer 2016 yn £1,447 miliwn, sef rhyw £33 miliwn (neu 2%) yn is na'r ffigur amodol ar gyfer 2015. Er mwyn cyfrifo hyn, caiff yr holl incwm o werthiannau busnes amaethyddol ei gynnwys (felly nid yw'n cynnwys taliadau cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol) ac ni ddidynnir unrhyw gostau.


Y prif reswm am y dirywiad oedd gostyngiad o £35 miliwn i gyfanswm o £413 miliwn yng ngwerth llaeth a chynhyrchion llaeth. Roedd hyn i'w ddisgwyl o ystyried yr anawsterau a adroddwyd gan lawer o fewn y sector ynghylch prisiau llaeth, yn enwedig yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn; roedd prisiau wedi gwella ychydig tua diwedd 2016. Oherwydd yr anawsterau a wynebwyd cynhyrchwyd llai o laeth gan lawer, ac mae hyn yn amlwg yn y gostyngiad yn nifer y gwartheg godro yn arolwg Mehefin. Byddai hyn wedi bod yn ffactor arall a gyfrannodd at y gostyngiad hwn yn yr cynnyrch cyffredinol. Felly, rhagwelir bod y cyfanswm wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â 2014 pan oedd y ffigur yn £549 miliwn.




Ar y llaw arall, yn y sectorau defaid a gwartheg cafwyd gwell prisiau yn ystod 2016, yn enwedig ar gyfer da byw wedi pesgi. Fel canlyniad, cafwyd cynnydd yng nghyfanswm gwerth y naill sector a'r llall. Rhagwelir y bydd y cynnyrch o ddefaid yn £267 miliwn, sef tua £10 miliwn (neu 4%) yn uwch na'r ffigurau amodol ar gyfer 2015. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth anifeiliaid stôr ac anifeiliaid wedi pesgi, a'r prif reswm am y cynnydd mewn cynnyrch oedd gwelliant yn amodau'r farchnad, yn rhannol am fod y bunt wedi gwanhau mewn cymhariaeth â'r Ewro. Rhagwelwyd bod gwerth y cynnyrch o werthiannau gwartheg, a fyddai'n cynnwys anifeiliaid godro, yn £376 miliwn, sef cynnydd o £5 miliwn (neu 1%). Gwerth cyfunol cynnyrch defaid a gwartheg yw'r gyfran uchaf o gynnyrch amaethyddol Cymru, sef 44%, ac mae hyn yn dangos pwysigrwydd cynhyrchu cig coch i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Roedd y cynnyrch amaethyddol o'r sector moch yn £5 miliwn.

**Rhagolygon incwm ffermydd yng Nghymru, 2016/17**

O fewn y mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhyddhau ei 'Rhagolwg o incwm ffermydd yng Nghymru, 2016/17'. Yn debyg i bob math ddatganiadau felly, mae'r ffigurau yn amodol ar adolygiad, ac er bod y cyfartaledd yn cael ei ddangos yn y data mae cryn amrywiaeth rhwng y gwahanol fathau o ffermydd. Serch hynny, mae'r ffigurau'n ddefnyddiol o ran dangos y tueddiadau hirdymor yn incwm ffermydd yng Nghymru. Mewn gwirionedd, ar gyfer yr adroddiad hwn, mae incwm busnes fferm yr un fath ag elw net.




Rhagwelir bod incwm busnes cyfartalog y fferm ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid mewn Ardal Llai Ffafriol yn £27,500 am 2016/17. Mae hyn tua £5,600 yn uwch na'r ffigur ar gyfer y flwyddyn flaenorol (yn ôl prisiau cyfredol), sef cynnydd o 26%. Dyma'r ffigur uchaf a welwyd mewn pum mlynedd, a'r tro cyntaf ers deng mlynedd iddo fod yn uwch nag ar gyfer ffermydd llaeth. Byddai gwell prisiau marchnad ar gyfer gwartheg cig eidion - ac ar gyfer defaid yn enwedig - o'u cymharu â'r cyfnod o 12 mis cyn hynny wedi dylanwadu ar y cynnydd. Y ffactor pwysicaf, fodd bynnag, fyddai'r cynnydd a welwyd mewn Taliadau Fferm Sylfaenol oherwydd y bunt wannach. Amcangyfrifir y byddai'r amrywiad hwn yn y gyfradd gyfnewid wedi arwain at gynnydd o 17 y cant yn lefel y taliad. Mae'r data yn y datganiad yn dangos y byddai llawer o ffermydd yng Nghymru, heb y taliadau cymorth hyn, yn dangos colled.


Disgwylir i'r gwelliant a welwyd yn incwm ffermydd Ardal Llai Ffafriol gael ei weld hefyd ar ffermydd gwartheg a defaid ar dir isel yng Nghymru. Mae'r incwm y fferm a ragwelir ar gyfer y math yma o fferm yn £22,000, sef cynnydd o 34% (neu £5,700) o'i gymharu â ffigurau 2015/16. Fel yn achos ffermydd Ardal Llai Ffafriol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd y Cynllun Taliad Sylfaenol i ffermydd da byw yng Nghymru, y ffactor pwysicaf oedd cynnydd mewn taliadau o ganlyniad i newidiadau yng ngwerth yr arian cyfred. Am fod mwy o anifeiliaid cig eidion ar ffermydd tir isel, roedd amodau gwell y farchnad gig eidion yn 2016/17 yn golygu bod cynnyrch uwch y fenter hon hefyd wedi cyfrannu at yr incwm uwch.

Mae'r incwm y fferm a ragwelir ar gyfer ffermydd llaeth yng Nghymru yn £24,500, sef 25% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Y gostyngiad ym mhrisiau llaeth fyddai'r prif reswm am y dirywiad hwn, ac mae'n pwysleisio pam y byddai llawer o gynhyrchwyr llaeth wedi teimlo rhyddhad o weld prisiau'n gwella yn ystod y misoedd diwethaf.

# PRISIAU'R FARCHNAD

## GWARTHEG

Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





Cafwyd cyfnod o sefydlogrwydd o ran prisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr yn ystod y misoedd diwethaf, heb fawr o amrywiad yn y pris cyfartalog. Yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 08 Ebrill, roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yn 190.3c/kg sef tua 2c yn uwch na'r wythnos flaenorol. Oddi mewn i'r cyfartaledd, roedd prisiau bustych, heffrod a theirw ifainc, yn ôl eu trefn, yn 190.2c/kg, 198.1c/kg a 180.2c/kg. Mae prisiau'n dueddol o ostwng ychydig yr adeg hon o'r flwyddyn, ond ni wireddwyd y patrwm hwn yn llwyr eto eleni. Mae hyn yn awgrymu bod y galw'n debyg i'r cyflenwad, yn enwedig wrth i ni symud tuag at gyfnod y Pasg.

Mae'r fasnach gwartheg dethol pwysau marw hefyd wedi parhau'n weddol sefydlog. Fodd bynnag, cafwyd ychydig o ostyngiad yn y prisiau yn ystod y mis diwethaf. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 01 Ebrill cafwyd cynnydd o 1.2c i 340.4c/kg yn y pris cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr, a hynny am fod y niferoedd a oedd ar gael ychydig yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau tua 20c yn uwch nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Cynyddodd y prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr ar gyfer heffrod a theirw ifanc hefyd yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, gan gyrraedd, yn ôl eu trefn, 343.2c/kg (+ 0.2c) a 312.9c/kg (+ 4.4c).

Roedd prisiau buchod difa ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr yn 117.6c/kg yn yr wythnos yn diweddu 08 Ebrill, sef 25c yn uwch nag oeddynt yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn ôl. Roedd y pris pwysau marw yng Nghymru a Lloegr am wartheg difa yn yr wythnos yn diweddu 01 Ebrill yn 226.3c/kg, sef cynnydd o 2c, ac roedd y niferoedd a gymerwyd i'r lladd-dai bron 11% yn is nag yn yr wythnos flaenorol.

## DEFAID

Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





Ar ôl dechrau tawel i'r flwyddyn, o'r diwedd mae prisiau ŵyn pwysau mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi dangos arwyddion o wella yn ystod y mis diwethaf. Adroddwyd cynnydd bychan yn y galw yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn barod ar gyfer cyfnod y Pasg. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn dal i fod yn uchel am yr adeg o'r flwyddyn, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd prisiau'n codi'n sylweddol. Roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn hen dymor yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru yn yr wythnos yn diweddu 08 Ebrill yn 177.0c/kg, sef 11c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Cafodd mwy o ŵyn tymor newydd eu marchnata yn ddiweddar, gyda chynhyrchwyr yn ceisio manteisio ar farchnad y Pasg. Yn yr wythnos ddiweddaraf, y pris cyfartalog ar gyfer ŵyn tymor newydd yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd 256.6c/kg.

Gan adlewyrchu'r patrwm a welwyd yn y marchnadoedd da byw, cafwyd gwelliant hefyd yn y fasnach ŵyn pwysau marw yn ystod y mis diwethaf. Yn yr wythnos yn diweddu 01 Ebrill, roedd y pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 414.0c/kg, sef 15c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol, a'r cynnydd wythnosol mwyaf a welwyd yn 2017. Felly, mae'r pris yn dal i fod tua 20c yn is na'r pris pwysau marw a welwyd yn ystod yr wythnos gyfatebol yn 2016. Mae adroddiadau yn awgrymu bod nifer yr wyn sy'n cael eu prosesu gan ladd-dai Prydain yn dal i fod yn uchel am yr adeg o'r flwyddyn, sy'n arwydd o'r nifer gynyddol o ŵyn a gadwyd ar y ffermydd ar ddechrau 2017.

Yn dilyn y patrwm tymhorol disgwyliedig, cafwyd cynnydd ym mhrisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru drwy gydol mis Mawrth ac i mewn i Ebrill am taw nifer gyfyngedig oedd yn cael eu gwerthu – ond roedd y pris yn dal i fod yn is nag oedd yn ystod y cyfnod cyfatebol yn 2016 a 2015. Yn yr wythnos yn diweddu 8 Ebrill, roedd y pris yn £58.10 yr anifail, sef 90c yn is na'r wythnos flaenorol. Mae hyn yn golygu bod y prisiau'n tua £10/pen yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016.

## MOCH

Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




Mae pris y moch safonol (manyleb yr UE) wedi cynyddu yn ystod y mis diwethaf ar ôl gostyngiad bach ym mis Chwefror. Yn ystod mis Mawrth, gwelwyd cynnydd bob wythnos yn olynol, ac ar ddiwedd y mis roedd rhwng 3c a 4c yn uwch nag oedd ar ddechrau'r mis. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 01 Ebrill, roedd y pris cyfartalog yn153.1c/kg, sef 1.4c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau dros 40c yn uwch nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Yn yr wythnos yn diweddu 25 Mawrth roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 154.7c/kg, sef 0.5c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a dros 38c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Caeodd y bwlch rhwng prisiau'r holl foch a phrisiau'r moch safonol ymhellach yn yr wythnos yn diweddu 25 Mawrth, i 3.01c/kg, wrth i bris y moch safonol gynyddu.

Wrth i brisiau pwysau marw wella yn ystod y mis diwethaf, mae'r fasnach berchyll hefyd wedi gwella, ac mae'r cynhyrchwyr sy'n pesgi yn ymddangos yn fwy hyderus. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 01 Ebrill, roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn £58.10, sef £1.30 yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol. Dyma'r tro cyntaf mewn tair blynedd i brisiau fod yn uwch na £58. Yn ystod yr un wythnos roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £39.80, sef 40c yn uwch nag oedd yn yr wythnos flaenorol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch a Hybu Cig Cymru ar 01970 625050 neu e-bostiwch info@hccmpw.org.uk